Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Hendy
Neuadd Yr Urdd
Heol Clayton
Yr Hendy
SA4 0UP

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2015**

**gan**

**Mr Eifion R Morgan**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JWneu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**©Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 08/01/2016**

## Cyd-destun

Mae Grŵp Chwarae'r Hendy wedi ei leoli yn adeilad Aelwyd yr Urdd yn y pentref. Pentref bach yw Hendy rhyw 5 milltir o Lanelli ar briffordd yr A4138 ar heol Pontarddulais. Mae’r lleoliad wedi’i hen sefydlu ac yn dyddio nôl i 1975, ac mae ar agor ar bum bore'r wythnos rhwng 9 y.b. tan hanner dydd yn ystod y tymor ysgol.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i dderbyn hyd at 24 o blant, gan gynnwys rhai ag anghenion dysgu ychwanegol rhwng dwy a hanner a phedair oed. Ar hyn o bryd mae 22 o blant ar y gofrestr gyda 15 ohonynt yn dair oed. Mae deg o blant yn cael eu hariannu gan Bartneriaeth y Blynyddoedd Cynnar.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dod o gartrefi Saesneg eu hiaith, mae rhai yn dod o gartrefi dwyieithog ac mae rhai yn dod o gefndiroedd ethnig. Ar hyn o bryd, ychydig iawn o blant sydd wedi’u nodi ag anghenion dysgu ychwanegol neu yn dod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.

Mae’r lleoliad yn cael ei staffio gan bump o ymarferwyr cymwysedig a phrofiadol. Mae'r arweinydd yn ei swydd ers 1998. Mae’n cael ei chynorthwyo gan ei dirprwy, tri aelod o staff a myfyriwr ar hyfforddiant yn ystod yr arolygiad. Mae gwaith y lleoliad yn cael ei oruchwylio gan Bwyllgor Rheoli. Mae'n aelod o Fudiad Meithrin ac wedi ennill y wobr Cylch Rhagorol yn 2012.

Cafodd y lleoliad ei arolygu ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym Mehefin 2013 ac ym mis Hydref 2009 gan Estyn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol y lleoliad yn dda oherwydd:

- mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da yn ystod eu hamser yn y lleoliad;
- mae medrau'r plant yn yr iaith Gymraeg yn datblygu'n dda;
- mae ansawdd y berthynas rhwng yr holl ymarferwyr a'r plant yn dda iawn;
- mae trefniadau effeithiol ar waith i annog y plant i fwyta ac yfed yn iach;
- mae'r lleoliad yn gymuned gofalgar a chefnogol le mae'r holl blant yn cael eu trin yn deg;
- mae'r rhieni yn hapus ac yn gwerthfawrogi ei bod yn hawdd mynd at y staff.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd:

- mae'r staff wedi'u ffocysu' n dda ar sicrhau bod y plant yn cyflawni'r safonau gorau posibl;
- mae'r ymarferwyr yn cyd-weithio'n dda fel tîm gyda synnwyr clir o ddiben;
- mae'r bartneriaeth gyda athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol yn effeithiol iawn;
- mae'r ymarferwyr yn awyddus i gyflwyno mentrau diweddar ar gyfer dysgu llythrennedd a rhifedd;
- mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Argymhellion

A1 Gwella'r cynllunio ar gyfer dysgu'r plant i sicrhau bod gweithgareddau'n cyfateb yn dda ag anghenion y plant ac yn eu herio.

A2 Datblygu gweithdrefnau asesu sy'n nodi datblygiad medrau'r plant ac sy'n nodi'r camau nesaf yn eu dysgu.

A3 Adolygu darpariaeth o'r adnoddau er mwyn cefnogi'r cynllunio a'r addysgu.

A4 Sicrhau bod y sesiynau'n symud ymlaen ar gyflymdra da a bod y plant yn cymryd rhan yn llawn.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae llawer o blant yn cyflawni safonau da yn ystod eu hamser yn y lleoliad. Mae gallu'r plant wrth iddynt ddechrau yn amrywiol iawn ac ychydig iawn o wybodaeth o'r iaith Gymraeg sydd gan y rhan fwyaf. Fodd bynnag, maen nhw'n gwneud cynnydd da yn unol â'u hoedran, gallu a chyfnod eu datblygiad. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cofio'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu o'r blaen. Er enghraifft, maen nhw'n gwybod geiriau rhigymau maen nhw wedi canu o'r blaen, fel "Mynd ar y ceffyl".

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwrando'n dda ar gyfarwyddiadau a storïau ac yn ymateb yn briodol, fel yn ystod cofrestru. Mae dealltwriaeth pob plentyn o'r iaith Gymraeg yn well na'u gallu i siarad yr iaith, fel wrth iddynt adnabod lliwiau gwahanol, ond yn anaml yn eu henwi heb anogaeth. Fodd bynnag, mae llawer o blant yn datblygu eu geirfa yn y Gymraeg, fel eu gallu i gyfrif yn y Gymraeg.

Mae medrau gwrando'r plant yn amrywiol iawn o ran bod lleiafrif yn fuan yn colli diddordeb ac yn dod yn aflonyddgar. Mae bron pob plentyn yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac yn gallu adalw dysgu blaenorol. Maen nhw'n trin llyfrau yn ofalus ac yn siarad yn hyderus yn eu mamiaith, er enghraifft enwi cymeriadau yn y stori. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn defnyddio ystod o offer gwneud marciau gyda rheolaeth resymol. Gall lleiafrif greu llythyr o'r wyddor mewn tywod a gall llawer o blant ddilyn amlinelliad gan ddefnyddio pen ffelt.

Mae llawer o blant yn cyfrif yn y Gymraeg fel cyfrif y plant sy'n bresennol adeg cofrestru. Mae bron pob plentyn yn cymryd rhan yn frwdfrydig gyda chaneuon rhif, gan gyfrif i ddeg, er enghraifft "clap, clap, un, dau, tri '. Mae mwyafrif o'r plant yn adnabod siapiau dau ddimensiwn ac yn gallu eu cyfateb i siapiau mwy o faint ac yn adnabod siapiau wrth chwarae y tu allan. Mae'r plant hyn yn defnyddio gwahanol siapiau yn eu gwaith adeiladu celf. Mae lleiafrif o blant yn gwybod pwrpas arian drwy weithgareddau yn y siop deganau.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gyfarwydd â theganau digidol a chamerâu gyda batris. Mae eu technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn datblygu'n dda. Mae llawer o blant yn mwynhau gwrando ar storïau yn eu hardal wrando ac mae ychydig yn gweithio'n annibynnol ar gyfrifiaduron llaw.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gallu trin gwrthrychau bach yn dda; maen nhw'n dal offer ysgrifennu'n briodol ac yn trefnu gwahanol siapiau pos yn gywir. Mae cyfleoedd addas i blant ddatblygu eu sgiliau corfforol.

Mae pob plentyn yn cael cyfleoedd i ymestyn eu gwybodaeth o ddiwylliant a thraddodiadau Cymru. Maen nhw'n dathlu Dydd Gŵyl Dewi gyda chyngerdd, drwy wisgo'n briodol a pharatoi a blasu bwydydd Cymreig, fel bara brith.

Yn gyffredinol, nid yw medrau meddwl a datrys problemau'r plant wedi'u datblygu'n ddigonol.

**Lles: Da**

Mae'r holl blant yn mwynhau dod i'r lleoliad ac yn awyddus i gymryd rhan yn y gweithgareddau sy'n cael eu gosod ar eu cyfer. Mae'r plant yn ymgartrefu'n gyflym ac yn dewis tasgau yn annibynnol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos cymhelliant pan mae ganddynt ddiddordeb yn y dysgu, gan ddyfalbarhau am gyfnodau rhesymol o amser, er enghraifft cyfateb siapiau ar y bwrdd golau. Fodd bynnag, pan nad yw'r gweithgareddau yn cyfateb yn dda i'w gallu ac yn parhau am gyfnod sy'n rhy hir, mae'r plant yn colli diddordeb. Mae'r rhan fwyaf o blant yn cymryd cyfrifoldeb am dacluso ar ddiwedd y gweithgareddau a mae bron pob un yn cymryd gofal wrth drin adnoddau.

Yn ystod amser byrbryd, ar ôl aros yn rhy hir, mae'r plant yn ymddwyn yn dda ac yn trin ei gilydd yn synhwyrol. Mae cyfrifoldeb yn cael ei roi i "helpwr y dydd". Mae bron pob plentyn yn dangos agweddau da ac yn ymarfer hunan-reolaeth dda yn ystod amser byrbryd.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio ar y cyd yn wythnosol ac mae nodiadau'r gwersi 'n cynnwys cyfeiriad at ddatblygiad medrau. Mae'r cynlluniau yn cynnwys ystod gwerth chweil o weithgareddau dysgu diddorol gyda phwyslais priodol ar chwarae a dysgu drwy brofiadau uniongyrchol. Mae gweithgareddau o'r fath yn galluogi'r rhan fwyaf o blant i wneud cynnydd da ar draws meysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio'n sicrhau gwaith sydd wedi'i wahaniaethu'n ddigonol sy'n darparu ar gyfer anghenion plant o wahanol alluoedd.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd priodol i blant ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu, yn enwedig i ddatblygu eu hiaith Gymraeg. Mae'r plant yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ganu ystod o ganeuon a rhigymau Cymraeg ac i ymestyn eu diddordeb mewn llyfrau. Mae'r lleoliad yn darparu ardal ddarllen gysurus ac ardal wrando ar gyfer grwpiau bach o blant. Mae gan lawer o blant fedrau gwrando da ond yn rhy aml yn cael eu tarfu gan leiafrif o blant sydd â medrau gwrando cyfyngedig.

Mae cyfleoedd addas i blant ddatblygu eu medrau gwneud marciau gan ddefnyddio ystod o wahanol gyfryngau gan gynnwys sialc, pennau ffelt ac i wneud patrymau llythyrennau mewn sebon a thywod gwlyb.

Mae'r cynllunio ar gyfer medrau rhifedd y plant yn datblygu'n briodol. Mae cyfleoedd mynych yn cael eu darparu i'r plant gyfrif, fel cyfrif y nifer o blant adeg cofrestru, gan gyfrif gwrthrychau yn eu siop deganau ac mewn storïau. Mae'r cynllunio'n cynnwys cyfleoedd gwerth chweil i blant ddidoli a chyfateb gwrthrychau ac i ddefnyddio geirfa fathemategol gan gynnwys "mawr a bach, llawn a gwag".

Mae gan blant gyfleoedd gwerthfawr i ddefnyddio offer digidol, gan gynnwys cyfrifiaduron llaw, camerâu digidol ac offer gwrando. Gyda help gan aelod o staff, mae’r plant yn cael mynediad i sgriniau cyfrifiadur ac yn symud eiconau ar y sgrin.

Mae'r cynllunio'n cynnwys gweithgareddau defnyddiol i ddatblygu sgiliau creadigol y plant a'u sgiliau echddygol manwl yn ystod gwaith creadigol. Mae gweithgareddau corfforol yn y dosbarth yn darparu cyfleoedd i blant fireinio rhai sgiliau echddygol bras, fel cerdded, sgipio a thrwy gymryd rhan mewn caneuon actol.

Mae cyfleoedd da yn cael eu cynllunio i’r plant ddysgu am ddiwylliant a thraddodiadau, fel dathlu Dydd Gŵyl Dewi yng Nghymru. Mae’r plant yn gwisgo'n briodol ac yn blasu coginio Cymreig. Mae dealltwriaeth a gwybodaeth y plant o ddiwylliannau eraill yn cael ei wella drwy ddathlu, er enghraifft, y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Divali.

Mae ymweliadau ac ymwelwyr yn cyfoethogi profiadau dysgu’r plant yn llwyddiannus. Mae ymweliadau gan yr heddlu, diffoddwyr tân a deintydd, yn cefnogi dealltwriaeth y plant o bobl yn y pentref sy'n eu helpu.

**Addysgu: Digonol**

Mae’r berthynas waith gadarnhaol a chefnogol rhwng ymarferwyr a phlant yn galluogi’r plant i ymgartrefu'n gyflym wrth gyrraedd y lleoliad ac i deimlo'n ddiogel. Mae'r plant yn gwybod sut i geisio cymorth a chefnogaeth, ac mae hyn yn effeithiol drwy helpu i ddatblygu eu hunan-hyder. Mae ymddygiad plant yn cael ei rheoli’n effeithiol.

Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn sensitif i'w hanghenion. Mae gan ymarferwyr brofiad o weithio gyda phlant ifanc ac yn deall arfer y Cyfnod Sylfaen o blant yn dysgu drwy chwarae. Ceir cydbwysedd derbyniol rhwng gweithgareddau sy’n cael eu dewis gan y plentyn a’u harwain gan oedolion. Fodd bynnag, nid yw’r gweithgareddau, fel tasgau ffocws, wedi’u gwahaniaethu’n ddigonol ac nid ydynt yn cyfateb yn dda i oedran, gallu a chyflawniad blaenorol y plant. O ganlyniad, nid yw’r rhai mwy galluog yn cael eu herio'n ddigonol ac mae'r llai galluog yn fuan yn colli diddordeb. Mae diffyg cyflymder ar adegau o fewn y sesiynau, ac mae gan y plant ormod o achlysuron pan fyddant heb weithgaredd. Mae’r gweithgareddau grŵp mawr, er yn dal diddordeb y plant i ddechrau, yn aml yn colli eu heffaith wrth i leiafrif o blant golli diddordeb a dod yn aflonydd.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant a’u gallu yn dda. Mae cofnodion defnyddiol o waith y plant yn cael eu cadw mewn ffeiliau unigol ac yn dangos cynnydd y plant. Fodd bynnag, nid oes digon o bwyslais ar adnabod datblygiad sgiliau’r plant ac ar adnabod y camau nesaf yn y dysgu ar eu cyfer.

Mae'r lleoliad yn cadw rhieni'n hysbys am gynnydd eu plant yn briodol drwy drafodaethau anffurfiol a chyfarfodydd ffurfiol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r trefniadau ar gyfer gofal plant, cymorth ac arweiniad yn cael effaith effeithiol ar safonau cyflawniad y plant a'u lles. Mae gweithdrefnau buddiol yn eu lle i annog y plant i fwyta ac yfed yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Er enghraifft, mae’r plant yn bwyta byrbrydau iach ac yn cael dŵr neu laeth i'w yfed. Mae gweithgareddau corfforol rheolaidd, gan gynnwys gweithgareddau symud i gerddoriaeth yn hyrwyddo ffitrwydd corfforol y plant.

Mae’r gweithgareddau o ddydd i ddydd yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant yn gadarnhaol. Mae datblygiad ysbrydol y plant yn cael ei atgyfnerthu trwy weddïau o ddiolch ac ymweliadau, er enghraifft, i ardd o bwysigrwydd cenedlaethol sy'n meithrin rhyfeddod y plant o'r byd y maen nhw’n byw ynddo.

Mae amrywiaeth fuddiol o brofiadau dysgu yn meithrin gwerthoedd y plant, fel gonestrwydd, tegwch a pharch ac yn hyrwyddo egwyddorion sy'n helpu’r plant wahaniaethu rhwng yr hyn sy’n gywir ac anghywir. Mae’r plant yn cael eu hannog i gymryd cyfrifoldeb, fel helpu i glirio i ffwrdd a thacluso'r ystafell. Mae perthnasau yn dda ac mae’r plant yn dysgu i rannu a chymryd eu tro.

Mae pob plentyn yn cymryd rhan mewn perfformiadau canu yn yr ardal ac yn cymryd rhan mewn cyngherddau Dydd Gŵyl Dewi. Mae'r lleoliad yn rhan annatod o'r gymuned leol ac mae’r plant, trwy ymweliadau ac ymwelwyr, yn elwa o'r cyswllt hwn.

Mae'r lleoliad yn darparu amgylchedd diogel a gofalgar lle mae’r plant yn teimlo'n gyfforddus gyda chefnogaeth dda. Mae’r ymarferwyr yn fodelau rôl da ac yn trin ei gilydd a'r plant gyda pharch. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid yw’n rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae trefniadau addas ar waith i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae'r lleoliad yn defnyddio cymorth ychwanegol gan asiantaethau cefnogi yn ôl yr angen.

Mae plant yn cael cyfleoedd buddiol i ddysgu am ddatblygiad cynaliadwy. Mae biniau priodol yn cael eu darparu i gasglu papur a chardfwrdd a bwyd gwastraff yn cael ei ailgylchu ar gyfer compostio.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynnes, gynhwysol lle mae’r berthynas waith dda yn sicrhau bod y plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae gan bob plentyn fynediad cyfartal i'r holl weithgareddau a meysydd y cwricwlwm. Mae’r ymarferwyr yn annog y plant i feddwl am eraill ac o ddiwylliannau a thraddodiadau eraill.

Mae'r adeiladau a'r ystafelloedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Mae'r drws yn cael ei gadw ar glo, gan sicrhau nad oes neb yn medru gadael na dod i mewn heb rybudd. Mae’r brif ystafell yn helaeth ac mae’r plant ac oedolion yn dod i mewn drwy'r neuadd sydd â hysbysfyrddau sy'n darparu gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer rhieni a gofalwyr. Mae gan y brif ystafell gyfleusterau cyfagos sy'n briodol ar gyfer oedran y plant. Mae amrywiaeth o arddangosfeydd deniadol a ffotograffau yn dathlu gwaith a chyflawniadau plant yn dda. Mae’r meysydd dysgu wedi eu diffinio'n dda ac yn darparu ardaloedd gwaith diddorol sydd wedi cael eu gwella'n ddiweddar. Mae angen i hyn barhau fel bod adnoddau addysgu yn cyfateb yn dda i anghenion cwricwlaidd.

Mae'r ddarpariaeth awyr agored yn gyfyngedig yn y bôn oherwydd ei faint, ond mae'r lleoliad yn gwneud yn iawn am hyn drwy gymryd plant ar ystod dda o ymweliadau, yn lleol ac ymhellach i ffwrdd. Mae'r adnoddau yn benodol i oedran y plant ac o ansawdd da.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn cael ei reoli'n dda. Mae gan yr arweinydd weledigaeth glir ar gyfer darparu addysg cyn ysgol cyfrwng Cymraeg o ansawdd da ar gyfer pob plentyn. Mae hyn yn fuddiol iawn ac yn galluogi’r plant i barhau â'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r arweinydd yn cael ei chefnogi'n dda gan ei dirprwy a'r staff. Maen nhw’n gweithio gyda'i gilydd yn dda iawn fel tîm ac yn ystod yr arolygiad yn cael eu cefnogi’n effeithiol gan fyfyriwr ar leoliad. Mae pob un ohonynt yn canolbwyntio ar ddarparu’r plant ag amgylchedd gofalgar a chefnogol, ac yn enwedig ar ddatblygiad eu gallu yn yr iaith Gymraeg. Mae'r holl ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau ac yn cefnogi ei gilydd yn dda. Maen nhw’n cael cyfleoedd rheolaidd i gyfrannu at gynllunio'r cwricwlwm ac i fynegi eu barn.

Mae prosesau priodol ar waith i reoli perfformiad ymarferwyr ac i nodi a chefnogi anghenion hyfforddi. Mae'r holl staff yn awyddus i fanteisio ar ddatblygiad proffesiynol parhaus ac yn ymdrechu i wella eu perfformiad. Mae'r Pwyllgor Rheoli wedi’i sefydlu'n dda ac yn gwbl gefnogol o'r lleoliad. Mae'n cael ei hysbysu'n llawn o weithgareddau'r lleoliad ac mae nifer o aelodau’n chwarae rhan weithredol, fel yn y cyngerdd Nadolig.

Mae'r staff yn rhoi sylw da i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol, fel datblygu arferion bwyta'n iach y plant. Mae'r lleoliad wedi nodi datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd plant fel ffocws parhaus ar gyfer datblygiad.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r holl ymarferwyr yn gweithio'n agos gyda'i gilydd gan rannu syniadau a dod o hyd i ffyrdd i wella'r ddarpariaeth o ddydd i ddydd. Maen nhw wedi elwa'n sylweddol o gefnogaeth a chyngor athrawes gefnogol yr awdurdod lleol. Mae trafodaethau yn arwain at newidiadau rheolaidd mewn ymarfer sy'n cael effaith fuddiol ar les a safonau cyflawniad y plant. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr wedi nodi ac wedi gwella ardaloedd gweithgareddau ac mae hyn wedi darparu gwell ddarpariaeth a gwelliant mewn dysgu annibynnol y plant.

Mae cryfderau'r lleoliad a'r meysydd i'w datblygu wedi cael eu nodi'n glir yn y ddogfen hunanarfarnu. Mae'r meysydd i'w datblygu sydd wedi'u nodi'n canolbwyntio'n briodol ar y safonau mae'r plant yn eu cyflawni ac ansawdd y ddarpariaeth ac yn enwedig ar ddatblygiad eu sgiliau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn unol â chanllawiau newydd y Cyfnod Sylfaen (2015).

Mae gan y lleoliad hanes da o wella'r ddarpariaeth a'r amgylchedd dysgu. Mae hyn wedi cael ei wneud yn sylweddol o ganlyniad i'r cyngor gwerthfawr ac effeithiol sy'n cael ei ddarparu gan athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol. Mae newidiadau i'r ddarpariaeth fewnol a'r adnoddau wedi gwella ansawdd yr amgylchedd dysgu ac o ganlyniad i hynny, mae effaith fuddiol wedi bod ar les a chyflawniad y plant.

Mae'r ardal awyr agored, er yn gyfyngedig fodd bynnag o ran maint, yn darparu cyfleusterau i'r plant i ymestyn eu dysgu.

Mae'r lleoliad wedi gwneud cynnydd priodol wrth fynd i'r afael ag argymhellion yr adroddiad blaenorol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad ystod dda o bartneriaethau effeithiol. Mae'r partneriaethau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les plant ac yn gwella ansawdd yr amgylchedd dysgu.

Mae partneriaeth gwerth chweil gyda rhieni a gofalwyr. Mae rhieni a gofalwyr yn gwerthfawrogi ansawdd y gofal a'r cymorth sy'n cael ei ddarparu gan ymarferwyr ar gyfer eu plant. Mae'r ymarferwyr ar gael bob amser i gyfarfod â rhieni a gofalwyr i drafod unrhyw broblemau sy'n codi. Mewn trafodaethau, mae rhieni a gofalwyr yn nodi eu boddhad llwyr â'r lleoliad a'r cynnydd mae eu plant yn ei wneud. Adroddodd rhieni a gofalwyr ar ddatblygiad personol a chymdeithasol eu plant, eu medrau iaith sy'n gwella a'u hawydd i fynychu'r lleoliad. Caiff rhieni eu hysbysu'n dda am yr hyn y mae eu plant yn ei ddysgu, yn arbennig geiriau ac ymadroddion Cymraeg. Mae hyn yn arbennig o fuddiol lle nad oes un rhiant yn siarad Cymraeg.

Mae'r lleoliad yn cysylltu'n briodol gyda'r ysgolion cynradd y mae'r plant yn trsogwlyddo iddynt. Mae'r plant yn ymweld â'r ysgolion cynradd ar gyfer gweithgareddau, fel adeg y Nadolig ac mae hyn yn rhagarweiniad defnyddiol ar eu cyfer.

Mae gan y lleoliad bartneriaethau buddiol gyda'r gymuned.  Mae’r plant yn gwneud ymweliadau, fel i ganolfannau garddio a siopau lleol ac mae ymwelwyr i'r lleoliad yn cynnwys diffoddwyr tân, yr heddlu a nyrs ddeintyddol.  Mae hyn yn helpu’r plant i ddeall sut mae'r bobl yn y gymuned yn eu helpu.

Mae'r bartneriaeth gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol yn hynod effeithiol ac wedi arwain at welliannau gwerth chweil a buddiol.  Mae’r cymorth gan y Mudiad Meithrin wedi bod o fudd wrth wella safonau plant yn yr iaith Gymraeg

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol gydag ymarferwyr cymwys a phrofiadol.  Mae digon o adnoddau i gefnogi'r addysgu a dysgu’r plant.  Mae’r ymarferwyr yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac mae’r staff yn cael eu cynnwys yn llawn wrth gynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm.

Mae'r holl ymarferwyr yn gael mynediad at hyfforddiant addas sy'n diwallu anghenion eu datblygiad yn briodol.  Mae’r ymarferwyr yn awyddus i gyflwyno'r cwricwlwm gorau posibl i'r plant ac yn gwneud defnydd da o hyfforddiant i wella ansawdd eu haddysgu a’r profiadau dysgu sy’n cael eu cynnig i’r plant.

Mae gan yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth glir o'r gyllideb ac mae gwariant yn cael ei gyfeirio'n dda at wella'r ddarpariaeth ar gyfer y plant.

O ystyried y canlyniadau da sy’n cael eu cyflawni gan y plant, y safonau uchel o ofal a lles, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |